

Faith Lloyd

Ysgrifennydd Tîm

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Beth wnaeth i chi ddewis prentisiaeth yn y GIG??

Ar ôl gwneud y penderfyniad anodd i adael y Chweched Dosbarth yn gynnar, roedd gen i ddilema ynghylch beth i'w wneud nesaf. Roeddwn i eisiau gwella fy nghymwysterau a'm set sgiliau ymhellach, ond roeddwn i hefyd yn chwilio am waith amser llawn. Yn ffodus, deuthum o hyd i hysbyseb prentis o fewn y GIG a roddodd gyfle i mi gyflawni'r ddau ddyhead. Roedd y syniad o weithio o fewn y GIG yn apelio'n fawr ataf, gan fy mod eisoes yn ymwybodol o natur werth chwell proffesiwn o'r fath.

Pa gefnogaeth gawsoch chi?

Yn dilyn fy llwyddiant yn y cyfweiliad, cysylltodd Emma â mi ar unwaith i'm helpu gyda'r camau nesaf yn fy ngwiriadau Cyn-Cyflogaeth ac i roi gwybodaeth am y cwrs NVQ, Lefel 2 Gweinyddu Busnes. Drwy gydol fy amser fel prentis, cefais gefnogaeth ddiwyro gan fy nghydweithwyr gweinyddol a rheolwyr a roddodd dasgau i mi yn unol â'm cwrs, gan gyfrannu'n sylweddol at fy nghynnydd. Ymhellach, cefais lawer o gefnogaeth gan y Tîm Talk Training wrth gwblhau fy nghymhwyster, roeddent mor barod i helpu gydag unrhyw beth yr oeddwn ei angen yn ystod y cyfnod hwn.

Beth fu'r manteision i chi?

Mae ennill prentisiaeth o fewn y GIG wedi bod o fudd i mi drwy roi cyfle i mi ehangu fy sylfaen gymwysterau ar yr un pryd ag ennill profiad ymarferol.

Sut deimlad oedd ennill eich rôl barhaol ar ôl cwblhau'r brentisiaeth a sut y parhaodd y cymorth?

Teimlais mor hapus ac yn hynod falch pan gefais gynnig rôl barhaol ar ôl cwblhau fy mhrentisiaeth a gwyddwn fod y gwaith caled a'r ymdrech a roddais wedi talu ar ei ganfed. Fe wnes i barhau i gael cefnogaeth yn fy rôl bresennol a chefais gynnig hyd yn oed mwy o hyfforddiant a chyfleoedd i wneud gweithgareddau diwrnodau i ffwrdd yn ogystal â chyfarfodydd 1.1 misol i fonitro fy nghynnydd.

A fydddech chi'n argymhell prentisiaeth yn y GIG i ffrind?

Byddwn yn bendant yn argymhell llwybr prentisiaeth y GIG i unrhyw un.

Sut mae cwblhau'r brentisiaeth wedi ehangu eich gorwelion? Beth sydd nesaf i chi?

Mae cwblhau'r brentisiaeth hefyd wedi caniatáu i mi gyfarfod a dysgu am y gwahanol dimau o fewn y GIG ac o ganlyniad wedi rhoi cipolwg i mi ar y llwybr yr hoffwn ei ddilyn yn fy ngyrfa nawr. Yn ddiweddar, bûm yn llwyddiannus yn cael swydd newydd ar y llwybr clinigol fel Nyrs Feithrin Gymunedol yn y Tîm Dechrau'n Deg. Drwy'r swydd hon, rwy'n gobeithio cwblhau fy nghymhwyster Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac o bosibl manteisio ar gyflawni gradd nysio yn y dyfodol agos.